YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1896. [RHIF 107

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

JOHN JAMES, GELLIONEN.

XV.

CYN ysgrifenu y pymthegfed Papyr ar y testun uchod, gweddus i mi yw deisyf maddeuant Golygydd a darllenwyr yr YMOFYNYDD am na fuaswn wedi gorphen y gyfres yn mhell cyn hyn. Hawdd fyddai llunio esgusodion, ond ni wnaent ateb un dyben. Y Papyr diweddaf a ysgrifenais a ymddangosodd yn yr YMOFYNYDD am Orphenaf, 1893, yn mha un y rhoddir hanes cyflawn o'r ymdrech boeth a gymmerodd le rhwng yr Undodiaid a'r Calfiniaid yn Ngellionen dydd Sul, y 18fed o Awst, 1816, ac yn yr hon y bu'r Undodiaid, dan arweiniad John James, yn ol cyfarwyddyd Dr. T. Rees, yn fuddugoliaethus. Oddiar y diwrnod bythgofiadwy hwn wyn hanes hen gapel Gellionen, y mae'r Undodiaid wedi cadw meddiant o hono, a mwy nâ hyny, y mae erbyn hyn yn rhydd-ddaliad *(freehold)* ganddynt, yn nghyd â'r gladdfa sydd wrtho. Y tadau a lafuriasant, ac y mae eu plant—os nid eu plant, y mae eu hwyrion a'u gorwyrion wedi dyfod i mewn i'w llafur hwynt, ac ymddengys eu bod yn deilwng o'r etifeddiaeth. Y mae capel newydd a phrydferth wedi cael ei adeiladu yn Trebanos, a dywedir wrthyf fod yno gynnulleidfa weithgar ac addawol. Yn mlaen yr elo'r gwirionedd, ac yn mlaen yr ä er pob rhwystrau. Llosgir y coed, a'r gwair, a'r sofl gan dân rhyddymofyniad; ond yr aur, a'r arian, a'r meini gwerthfawr a oddefant y prawf.

Nid oedd yn bossibl i bethau barhau yn Ngellionen ryw lawer o amser yn hŵy fel yr oeddynt, oblegyd yr oedd goleuni gwybodaeth yn myned ar gynnydd, a gwrthuni a hagrwch Calfiniaeth yn dyfod

fwy fwy i'r amlwg, fel yr aeth yn ffieiddbeth yn ngolwg y bobl flaenaf a mwyaf diwylliedig yn y gynnuileidfa, ac y gorfu arni roi ffordd i dduwinyddiaeth well. Y cam cyntaf ar y goriwaered (gorifyny, feddyliwn i) yn debygol oedd i Arminiaeth, yna i Ariaeth, ac yn olaf i Undodiaeth, yr hon yw'r athrawiaeth a bregethir yno ac yn Nhrebanos yn bresennol, ond nid yn yr un diwyg, ysgatfydd, ag y pregethid hi gynt gan John James a'i gydweinidogion yn yr enwad. Nid yw Undodiaeth uwchlaw bod yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau, ac ni ryfygaf brophwydo beth fydd ei drych yn y dyfodol; ond gwn fod ymosodiadau duwinyddion diweddar ar yr hen gyfundrefn yn drymion a diarbed. Gobeithio na chyfyd yn mhlith Undodiaid Cymru bersonau mor ddireswm o eithafol a rhai o aelodau Pwyllgor Cynghorol Llundain a'r siroedd de-ddwyreiniol, y rhai sydd wedi peri cryn gynhwrf yn ddiweddar yn yr enwad; ond beth bynag fydd, credaf y goruwchlywodraetha Duw'r gwirionedd bob peth er daioni yn y pen draw.

Wedi'r gwrthryfel mawr yn 1816, ni fu un annghydfod o bwys yn Ngellionen; ond nid ar unwaith, nac mewn ychydig amser, y daeth perffaith gydgord yn y gynnulleidfa. Nid oes un ystorm o wynt, neu o fellt a tharanau, yn pasio ag nad yw yn gadael ei hol fwy neu lai hyd y ffordd y mae yn myned. Felly y bu yn Ngellionen. Er i'r ystorm gilio, a thawelwch ar y cyfan ganlyn, yn raddol iawn y daeth hithau i'w lle, ac y cafwyd heddwch a ffyniant o fewn pyrth Seion. O herwydd y teimladau anhyfryd oedd wedi cael eu cyffroi gan yr annghydwelediad rhwng yr Undodiaid a'r Calfiniaid, enciliodd amryw o'r olaf i dymheredd mwy cydnaws yn Baran, capel a adeiladwyd yn y flwyddyn 1805 gan ryw nifer o bersonau oedd wedi cael eu tarfu, yn flaenorol i hyn, o Gellionen gan dduwinyddiaeth beryglus Josiah Rees, a'i fab Dr. Thomas Rees ar ei ol, yr hwn a farnent oedd yn waeth heretic na'i dad. Oddiwrth hyn, gwelir fod y gynnulleidfa wedi cychwyn ar y *down grade* lawer o flynyddau cyn i John James fod ag un llaw yn yr achos; ond wedi iddo ei chymmeryd dan ei ofal fel gweinidog, hwyrach iddo gyflymu ei mynediad yn y cyfeiriad hwnw.

Bywyd anhapus ddigon gafodd John James yn ystod y ddwy flynedd y bu yn weinidog Penybont a'r Betws, a barnodd mai gwell oedd iddo ymadael a rhoi ei wasanaeth yn gyfangwbl i Gellionen, er mai cymmylog iawn oedd yr awyr wedi bod yno yn ddiweddar; ond wedi iddo fyned i gartrefu yn y Fardre, ger Clydach, ac agor ysgol yno, ennillodd iddo ei hun yn fuan enw a pharch fel ysgolfeistr; ac yn raddol trwy ymgydnabyddu â'r bobl, ac ymddyddan â hwynt ar bynciau'r dydd, daeth yn un o ben-cynghorwyr y cylch-oedd mewn materion tymhorol, er yr ofnid ei gymmeryd yn awdurdod ar bwnc o athrawiaeth. O'r tu arall, i'w bobl ei hun, sef yr Undodiaid, yr oedd yn oracl mewn duwinyddiaeth yn gystal ag mewn pethau ereill. Felly ar brydiau pan fyddai'r awyr yn ddigwmmwl, a phethau yn myned rhagddynt ar eu gwell, teimlai John James yn ei gylch newydd yn galonog a gweddol gysurus, ond nid

heb gofio yn aml a chyda hiraeth am ei hen gyfeillion yn Sir Aberteifi. Pan fyddai ei feddwl mewn awr o seibiant yn orlawn o adgofion melus y gorphenol, mae gan yr ysgrifenydd sail i gredu y codai yn ei galon chwant i droi ei wyneb yn ol at ei hen gynnulleidfaoedd, ac yn enwedig os dygwyddai i ryw annymunoldeb dywyllu ei ragolygon fel gweinidog yn Gellionen ; a digon tebyg ei fod fwy nag unwaith wedi *hanner addaw* i rai o'i brif gyfeillion yn Nghapelygroes a Phantdefaid i ddychwelyd atynt. Ond dychwelyd ni wnaeth i aros gyda hwy, hyd nes y daeth y tro olaf i orwedd yn mynwent Pantdefaid.

O'r tu arall, yr oedd ymlyniad Undodiaid Ceredigion wrth John James yn gymmaint, fel pan yr ymadawodd i Sir Forganwg, nis gallent ddygymmod â'r meddwl ei fod wedi ymadael byth i ddychwelyd, ond gobeithient a chredent y byddai iddo ddyfod yn ol ac adymgymmeryd â'r weinidogaeth yn eu plith pan ddelai yr amser cyfaddas oddiamgylch. Fel prawf o hyn, anfonent iddo alwad ar ol galwad pan feddylient fod yr amgylchiadau yn ffafriol i lwyddiant, ond yn rhywfodd neu gilydd aflwyddianus fuont er eu holl daerineb.

Nid yn hir y bu John James yn Morganwg cyn i'w gyfeillion hiraethlon yn Sir Aberteifi ysgrifenu ato i ddweyd y byddai iddo gael galwad yn fuan i ddyfod yn ol atynt hwy. (Gwel Papyr XII. yn yr YMOFYNYDD am Hydref, 1892, yn yr hwn y rhoddir hanes cyfarfod pwysig a gynnaliwyd yn Nghapelygroes, Mawrth 17eg, 1818. Gan na ymddangosodd y llythyrau canlynol yn y Papyr hwnw, a chan eu bod o ryw ddyddordeb yn hanes bywyd John James, wele hwynt yn cael eu gosod i mewn yn y Papyr hwn.

LLOYDJACK, Mawrth 17eg, 1818.

FY ANWYL GYFAILL,

Buais heddyw yn Nghapelygroes. Daeth rhai o bobl Pantdefaid yno â llythyr oddiwrth John Thomas yn rhoddi tri chynnyg i'r cynnulleidfaoedd. Y cyntaf oedd y byddai iddo ef wasanaethu Pantdefaid am bymtheg punt y flwyddyn, neu wasanaethu Pantdefaid a Chapelygroes am ddeg punt ar hugain fel yn bresennol, neu ymfudo i America. Os byddent am iddo aros, byddai yn well ganddo y cynnyg blaenaf os caffai pobl Capelygroes weinidog dysgedig a da er mwyn cael ei gyfeillach ef. Yr oedd y bobl yn cytuno yn unllais i gael dau weinidog, ond yr oedd pobl Pantdefaid yn ofni na allent hwy roi pymtheg punt y flwyddyn i John Thomas heb gynnorthwy pobl Capelygroes, yr hyn oedd yn groes iawn i'w dysgwyliad. Cytunodd pobl Capelygroes yn unfrydol i roddi galwad i chwi i fod yn weinidog yno ac yn Ystrad ; ac yr oeddynt yn galonog yn addaw i chwi ddeg punt ar hugain y flwyddyn o gyflog. Ni roddent gymmaint i neb arall. Rhoddwch ateb mor gynted ag y galloch.—Wyf, eich ffyddlon gyfaill,

REES JONES.

Yr oedd y Rees Jones uchod, os wyf yn cofio yn iawn, yn gefnder i David Jenkin Rees, Lloydjack, yr hwn fu farw o'r *typhus* Medi 24ain, 1817. Ac nid anmhriodol, er mwyn croniclwyr dyfodol, fyddai crybwyll yn y fan hon mai gweddw Rees Jones oedd y ddiweddar Mrs. Jones, o'r Felinfach, Ystrad, a modryb chwaer ei fam

i'r presennol Barch. John Davies, gweinidog Alltyplaca a Chapelybryn. Mae llawer etto yn fyw hyd glanau Aeron a manau ereill yn cofio yn dda am yr Undodwraig bybyr, selog, a charedig hon. Yr oedd John James a hithau yn gyfeillion mynwesol tra fuont byw.

Wele etto lythyr arall at John James o r un dyddiad, ac yn agos os nid yn hollol i'r un perwyl, oddiwrth un o brif aelodau Pantdefaid y pryd hwnw :—

EFELFACH, LLANDYSSUL, Mawrth 17eg, 1818.

ANWYL GYFAILL,

Yr wyf yn ysgrifenu atoch heb wybod i'm cyfeillion i'ch hyspysu i mi fod yn Nghapelygroes heddyw, a chenyf lythyr oddiwrth Mr. John Thomas yn cynnyg gwasanaethu Capelygroes ac Ystrad am ddeg punt ar hugain y flwyddyn, neu Pantdefaid yn unig am bymtheg punt. Wedi ymresymu â'u gilydd, penderfynodd pobl Capelygroes roddi galwad i chwi i fod yn weinidog yno, ac yn Ystrad am ddeg punt ar hugain y flwyddyn, ac i ninau yn Pantdefaid roi pymtheg punt i Mr. John Thomas. Dywedais wrthynt na allem ni wneyd y swm hyny fyny heb eu cynnorthwy hwy, ac addawsant ei roddi. Fy nymuniad gan hyny yw i chwi gofio am danom pan fyddoch yn ammodi â hwynt, a dweyd wrthynt am addaw swm bennodol er ein cynnorthwyo ni yn Pantdefaid. Yr wyf yn meddwl y bydd i chwi gael galwad o Capelygroes yn fuan iawn. Etto, yn mhellach, os bydd i chwi roi awgrym y dewch atom ni i Bantdefaid, gallwn dalu i chwi bymtheg punt yn haws na deg punt i Mr Thomas. Os bydd hyn yn bod, cewch enwau pump neu chwech o bersonau a fyddant gyfrifol i chwi am yr arian. Byddwch yn sicr o gael ysgol dda yn Llandyssul. Dymunaf gael clywed oddiwrthych yn fuan i wybod a dâl i ni roi galwad i chwi neu ni wna.—Eich ewyllysiwr da. DAVID JAMES.

Yr oedd Dr. T. Rees yn fawr ei serch, a'i ddymuniadau da tuag at hen gynnulleidfa barchus ei dad, fel na fynai ar un cyfrif iddi gael ei hamddifadu o weinidog mor oleudyb a galluog a John James, a gwnaeth ei oreu i wrthweithio dylanwad ei gyfeillion, y rhai a chwennychent ei gael yn ol i Geredigion, ac efe a lwyddodd.

Heblaw y llythyrau uchod, ysgrifenwyd llythyr arall at John James ryw fis yn ddiweddarach gan John Thomas, yn ei hyspysu fod ei gyfeillion yn Capelygroes ac Ystrad yn dra siomedig, am na fuasai wedi ateb y llythyr a dderbyniodd oddiwrth Rees Jones. Yn ei lythyr, dywed John Thomas ei farn ei hun ar y mater:—"Byddem yn ddiolchgar pe ysgrifenech atom. Yr wyf yn meddwl y byddech yn debyg i wneyd mwy o ddaioni yn y wlad hon nag yna, yn neillduol trwy gadw ysgol i barotoi dynion ieuainc gyferbyn â'r weinidogaeth. Y mae son am danoch wedi myned ar led yn mhell ac agos eich bod yn ysgolfeistr rhagorol—enw, fel yr wyf yn credu, na fydd i chwi gael yn Morganwg. Nid yw eich dysgeidiaeth yn ol chwaeth y wlad yna, yr hon nid yw yn gofyn dim ond llawysgrifen dda, rhifyddiaeth, moesau swynol, a siarad boneddigaidd a dengar."

Wele etto lythyr yn rhagor oddiwrth John Thomas yn brawf o benderfyniad di-ildio cynnulleidfaoedd Capelygroes ac Ystrad (hwy yn unig y tro hwn) i gael John James yn ol atynt :—

ABERCERDIN, Ionawr 26ain, 1825.

ANWYL GYFAILL,

Yr wyf newydd ddychwelyd o'r cyfarfod a gynnaliwyd yn Capelygroes gyda r dyben i ddewis gweinidog yn lle Mr. J. Davies. Gan mai fi oedd y cadeirydd, ceisiwyd genyf ddweyd wrthych fod y cyfarfod yn unllais yn dymuno arnoch i dalu ymweliad â hwy mor gynted ag y byddo yn gyfleus i chwi er mwyn cael eich cynghor dan yr amgylchiadau presennol. Ac y maent hefyd yn bwriadu, un ac oll, i geisio genych ddyfod drosodd i fod yn weinidog iddynt ar ol cael cyfleusdra i osod eu hamgylchiadau ger eich bron yn well ac yn llawnach nag y gallant â phapyr ac inc. Ydwyf, anwyl gyfaill, dros y gynnulleidfa, llawer o ba rai sydd yn awr o'm hamgylch.—Yr eiddoch yn ddidwyll, JOHN THOMAS.

Er mwyn y mwyafrif o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, dymunaf ddweyd mai wrth yr enw John Davies o Gastellnedd yr adwaenid y John Davies uchod, wedi iddo ymadael o Gapelygroes ac Ystrad. Dechreuodd ei weinidogaeth yn y ddau le olaf Awst 9fed, 1818. Clywais ddweyd ei fod yn boblogaidd iawn tra yr arosodd yn y cylch. T. T.

Medi 9fed, 1896.

Y FYNWENT.

O FYNWENT oer, mae yn dy wedd
  Ryw arswyd sydd yn rhynu'm cnawd ;
Mae'r meini cain, a'r briddgoch fedd
  Yn dweyd : "Gwel, dyma'th gartref, frawd."
Mynegfys angeu y'nt bob un
  I ffordd na ddychwel neb yn ol—
Ffordd ddisathr, unig i bob dyn,
  Lle triga'n gydwedd gall a ffol.

Pan sangwyf ar dy werddlas lawr,
  Ysprydiaeth ing a thrallod prudd
Sydd yn fy nilyn I, a mawr
  Yw'm hawydd am awyrgylch rydd,
Yn lle anadlu awyr drom
  Y fynwent, lle caf finau fod,
Wrth gwrs naturiaeth, er fy siom,
  Ryw ddydd, o dan dy farwol nod.

Cymdeithion dystaw yw y gwych
  A'r gwael, ac heb gyffroad chwaith ;
Yn huno hun nas deffry clych—
  Dygrynawl swn—yr un i'w waith.
Yr arch-ormeswr, er ei rawd,
  Orwedda yma'n dawel, fud,
Wrth ochr ei ormesedig frawd,
  Er cymmaint ei drahausfalch fryd.

Y cybydd carpiog, rhynllyd wedd,
  Gynt ymhyfrydai yn ei stor
O gyfoeth rhydlyd, sy'n ei fedd ;
  A'r meddwyn blysig—yfai for
O feddwol wlybwr—yn ei wanc
  Am fwy, ni chaffai, yn ei fyw,
Ddigonedd, och ! daeth ef i'w dranc,—
  Mor sicr yw tynghed dynol ryw !

O Fynwent lân, tu fewn i'th fur
  Mae pawb yn gydwedd yn dy lawr,
Heb neb yn teimlo loes na chur,
  Na phryder hyd yr olaf awr ;
Pryd hyny yr holl saint heb fraw
  Gyfodant oll at engyl pur,
A'r Barnwr ar y cwmmwl draw,
  Tra'r annuw yn ei chwerw gur.

O Fynwent wag ! difreiniwyd di,
  A chollaist dy anrhydedd oll ;
Diangodd o'th afaelion cri
  Fil-myrdd, a mwy heb un ar goll ;
Ofnadwy sain yr udgorn mawr
  Ddychrynodd angeu—ymaith ffodd
I'w gelloedd mall tywynodd gwawr,
  Pyrth angeu mwy yn fywyd drodd.

Merthyr. GWERNYFED.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU GRIST, FEL EI COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

TACHWEDD 8.

GWERS V.—RHAGARWEINIOL.—GWLAD IESU.

Nodyn 2.—Yr ydwyf dan rwymau neillduol i *Gannett's Childhood of Jesus*, a *Carpenter's Life in Palestine, when Jesus lived*, yn y gwersi a ganlyn. Mae y ddau yn wir deilwng o sylw pob athraw sydd yn medru Saesneg. Gellir eu cael oddiwrth y *Sunday School Association*, pris 1/6 a 1/-.

Y TESTYN AURAIDD.—"*Gwlad yn llifeirio o laeth a mel, yr hon yw gogoniant yr holl diroedd.*—EZEC. xx. 6.

Enwau y wlad.—"Canaan," neu "Wlad Canaan;" hefyd "Gwlad neu Dir Israel," yn yr Hen Destament. "Gwlad Judea" yn amser Iesu, er fod yr enw hwn yn fwy cymhwys i'r rhan ddeheuol. Ar ol y cyfnod Cristionogol, adnabyddid hi fel "y wlad sanctaidd," ac fel "Palestina," yr un gair a "Philistia," ac yn golygu, yn wreiddiol, y rhan hono a feddiannid unwaith gan y Philistiaid.

Ei maintioli.—Gwlad fechan, rhyw 140 o filldiroedd o hyd, a 40 o led, o'r Iorddonen i'r Mor Mawr. Yn agos yr un maintioli a Chymru. Ond er mor fechan, mae fel gwledydd bychain ereill, megys Phœnicia, Groeg, Holland, Lloegr, &c., wedi chwareu rhan bwysig mewn hanes.

Ei safle.—Yr oedd iddi safle ganolog yn yr hen fyd, fel "prifffordd tri chyfandir," y ddolen oedd yn cyssylltu Chaldea, yr Aifft, Persia, Groeg, a Rhufain, wrth eu gilydd. Felly yr oedd yn agored i dderbyn dylanwadau o'r tu allan, ac hefyd yn alluog, fel mae hanes wedi profi, i gynnyrchu dylanwad pwysig ar yr holl fyd.

Yn neillduedig.—Cauir hi fyny gan fynyddoedd, anialdiroedd, a moroedd. Mae'r ffaith hon yn cyfrif am fod yr Iuddewon wedi sefyll am gynnifer o oesau ar eu penau eu hunain fel cenedl, ac wedi cadw eu crefydd a'u harferion yn ddilwgr.

Ei nodweddion naturiol.—Gwneir y wlad i fyny o fynydd-dir, yn ymgodi yn y canol rhwng dyffryn dwfn yr Iorddonen ar un llaw, a glan y Mor Mawr ar y llaw arall. Torir y mynydd-dir, yn un man, gan wastadedd Jezreel neu Esdraelon, trwy yr hwn y treigla yr Afon Kishon. Mae gwyneb y wlad yn gwella fel yr eir i fyny o'r deheu i'r gogledd. Yr oedd Galilea, yn amser Iesu, yn baradwys o ran ei phrydferthwch a'i ffrwythlondeb.

Rhaniadau y wlad.—Yn y deheu yr oedd Judea gyda'r brif ddinas, Jerusalem, lle yr oedd y Deml, canolbwynt holl draddodiadau gogoneddus y genedl. Yn Judea yr oedd Bethlehem, Emmaus, Mynydd yr Olew-wydd, Gardd Gethsemane, Bethania, a Jericho,—manau cyssegredig yn hanes Iesu. Yr oedd Samaria yn y canol, ac ynddi, wrth droed Mynydd Gerizim, yr oedd dinas a elwid Sichar, lle yr oedd ffynnon Jacob, Ioan iv. 5, 6.

Galilea.—Y rhan ogleddol oedd y fwyaf ffrwythlawn, prydferth, a phoblog, ïe, a mwyaf dyddorol i ni; oblegyd un o Nazareth yn Galilea oedd Iesu Grist, ac yn mhlith trefi Galilea, megys Capernaum, Chorazim, Bethsaida, Magdala, Cana a Nain, y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd cyhoeddus.

Y wlad yn amser Iesu.—Yr oedd mewn gwirionedd yn "llifeirio o laeth a mel," ac yn cyfateb i'r desgrifiad yn Deut. viii. 7—10—y bryniau yn guddiedig à choed, a phob llecyn o ddaear yn dwyn ei gynnyrch. Erbyn heddyw, mae'r cwbl wedi newid. Fel canlyniad llywodraeth a gormes andwyol y Twrciaid, mae y bryniau yn noethlwm, y tir mewn adfeilion, ac hyd y nod y dyffrynoedd breision wedi eu hesgeuluso, ac wedi myned yn ddiffrwyth.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Rhoddwch wahanol enwau y wlad. 3. Pa air yn yr Hen Destament sydd yn golygu yr un peth a Palestina? 4. I ba wlad mae'n debyg o ran maintioli? 5. Beth yw ei hyd a'i lled? 6. Heblaw Palestina, pa wledydd bychain sydd wedi bod yn enwog? 7. Pa rai oedd wledydd pwysig *(great powers)* yr hen fyd? 8. Enwch y tri chyfandir, i'r rhai yr oedd Palestina yn brif ffordd. 9. Beth oedd yn ei hamgylchynu ar bob tu? 10. Sut oedd hyn yn effeithio ar ei hanes? 11. Enwch dri rhaniad y wlad. 12. Enwch y lleoedd adnabyddus i'r Iesu yn mhob un o honynt. 13. Beth yw sefyllfa Palestina yn awr? 14. Paham?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Paham y gelwir Palestina yn "Wlad Sanctaidd?" 2. Beth sydd yn gwneyd gwlad yn sanctaidd? 3. Yn mha beth heblaw maintioli mae Cymru yn debyg i Palestina? 4. Am beth yr ydym yn ddyledus i'r genedl Iuddewig? 6. Am beth i Phœnicia, Groeg, a Rhufain? 6. Desgrifiwch nodweddion naturiol y wlad. 7. Enwch y mynydd uwchaf yn Mhalestina. 8. Pa afon sydd yn tarddu o hono? 9. Beth yw ystyr y gair "Iorddonen?" 10. Dangoswch mor darawiadol ydyw.

TACHWEDD 15.

Gwers VI.—Rhagarweiniol.—Y Bobl.

Y Testyn Euraidd.—"*Canys pobl sanctaidd ydwyt ti i'r Arglwydd dy Dduw; yr Arglwydd dy Dduw a'th ddewisodd di i fod yn bobl unig iddo ei Hun, o'r holl bobloedd sydd ar wyneb y ddaear.*—Deut. vii. 6.

Y genedl.—Adnabyddir hi wrth yr enwau "Hebreaid," y bobl a ddaethant o du draw yr Afon Euphrates, ar eu taith i'r Gorllewin; "Israeliaid," disgynyddion Israel neu Jacob; "Iuddewon," oddiwrth enw un o'u cyndeidiau, Judah. Gallwn olrhain ei dechreuad efallai i Abraham, yr hwn a aeth allan o Ur y Caldeaid i fyned i dir Canaan, Genesis xi. 31.

Y genedl ddewisedig.—Os ydyw yn bwysig i wybod nodweddion y wlad lle magwyd Iesu, mwy pwysig fyth ydyw adnabod nodweddion y bobl o'r rhai y deilliodd. Un o'u hargyhoeddiadau dyfnaf oedd eu bod yn bobl wedi eu dewis mewn modd neillduol gan Dduw; ac os meddyliwn ni eu bod wedi eu gosod yn Rhagluniaeth Duw i fod yn gyfrwng bendithion neillduol i'r byd, gallwn yn hawdd ganiatau eu bod yn iawn.

Nodweddion y genedl.—1. Yr oedd wedi ei donio â'r "reddf grefyddol" yn fwy nag un genedl arall; ac yn y mater hwn, gallwn

ddweyd ei bod wedi ei dewis gan Dduw i chwareu rhan anfeidrol bwysig yn y byd. Trwy yr hen Rufeiniaid, mae y byd gwareiddiedig wedi cael ei ddeddfau; trwy y Groegiaid ei syniadau am brydferthwch mewn celf a llenyddiaeth; trwy y Phœniciaid ei drafnidiaeth; a thrwy yr Iuddewon y rhodd bwysicaf o'r oll,—ei grefydd. 2. Yn rhinwedd y reddf hon, darfu i'r genedl, yn nghwrs ei dadblygiad, gael gafael ar y syniad o "Undod Duw." Trwy lygad ffydd, rhagwelodd egwyddor uwchaf a dyfnaf crefydd y byd diweddar. Nid llawer o dduwiau, nid trindod o bersonau yn un Duw, ond "clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd *un* Arglwydd," Deut. vi. 4. Y syniad mawr hwn oedd ysprydoliaeth y genedl yn nghyfnodau goreu ei hanes, ac at hwn mae yr holl greadigaeth yn symmud heddyw. 3. Yn addysg proffwydi yr wythfed canrif cyn Crist, daeth y Duw Hwn—y Jehofah anweledig—i gael ei ystyried "yn holl sanctaidd, ac yn holl gyfiawn," yn gofyn oddiwrth ei addolwyr, nid "aberthau hyrddod a brasder anifeiliaid breision," Isaiah i. 11, &c., ond cyfiawnder, daioni, a thrugaredd. Ac os daioni a thrugaredd mewn dyn, nid rhyfedd fod un o'r proffwydi wedi cael rhyw gipolwg ar egwyddor fawr sylfaenol Cristionogaeth—tadoldeb Duw; "Canys Ti yw ein Tad ni," &c., Isaiah lxiii. 16. 4. Mae cenedl, i fesur, yn dwyn delw y Duw ag y mae yn credu ynddo; a chawn fod "cymmeriad moesol" Jehofah wedi argraffu ei hun, i raddau pell, ar grefydd Israel. Dywed Micah vi. 8, "Dangosodd efe i ti, ddyn, beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw." Y Deg Gorchymyn ydyw sylfaen, moesoldeb ydyw hanfod, a'r gair "cyfiawnder" ydyw nodyn amlycaf crefydd yr Hen Destament. Ac yn ei moesoldeb dwfn mae Iuddewaeth wedi bod y parotoad goreu ar gyfer Cristionogaeth.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Rhoddwch wahanol enwau y genedl. 3. Sut y carai yr Iuddewon edrych arnynt eu hunain fel cenedl? 4. Yn mha ystyr y gallem ni ganiatau eu bod yn iawn? 5. Enwch y prif beth sydd wedi nodweddu y genedl. 6. Pa help roddodd y Rhufeiniaid i'r byd? y Groegiaid, y Phœniciaid? 7. Enwch y syniad mawr y cawsant afael arno yn nghwrs ei hanes. 8. Beth mae Undod Duw yn olygu? 9. Dan ba enw, yn neillduol, mae Duw yn cael ei grybwyll yn yr Hen Destament? 10. Beth yw ei gymmeriad yn y rhanau goreu o hono? 11. Pa beth mae yn ofyn oddiwrth ei addolwyr? 12. Adroddwch Micah vi. 8. 13. Yn mha le y cawn ni gipolwg ar Dadoldeb Duw yn yr Hen Destament?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Pwy sydd yn galw ei hun yn Hebrewr yn y Testament Newydd? 2. Dyfynwch yr adnod. 3. Beth yw ystyr y gair "Hebrewr?" 4. Lle mae Phœnicia? 5. Enwch ddwy o'i phrif

ddinasoedd. 6. A fu rhyw gyssylltiad erioed rhwng Phœnicia a Phrydain? 7. Enwch bethau sydd yn tyfu. 8. A ydyw crefydd yn tyfu fel pobpeth arall? 9. Dangoswch fod y grefydd Iuddewig wedi bod yn dyfiant, gweler Gannett tud. 48. 10. Beth yw ystyr ac amcan aberth? 11. Enwch dri math o aberthau, Gannett tud. 49. 12. Adroddwch y ddau bennill cyntaf a'r olaf o emyn 135 yn *Emynau ac Odlau* y Parch. R. J. Jones, M.A., "O, weithiau melus drem a gawn," &c.

TACHWEDD 22.

Gwers VII.—Rhagarweiniol.—Y Messiah.

Y Testyn Euraidd.—"*Ni phalla ac ni ddigalona efe, hyd oni osodo farn ar y ddaear.*"—Esaiah xlii. 4.

Nodyn 6.—Mae y syniad am y Messiah yn chwareu rhan mor bwysig yn hanes Iesu Grist, fel nad oes eisieu un esgusawd dros gyflwyno un wers i'r mater.

Nodyn 7.—Gair Hebraeg yw "Messiah," yn golygu yr un peth a'r gair Groeg, "Crist." Yr ystyr yw "Eneiniog." Cymhwyswyd ef at freninoedd Israel yn yr ymadrodd cyffredin, "eneiniog yr Arglwydd," a daeth wed'yn i sefyll am y Brenin a'r Gwaredwr ag yr edrychai Israel yn mlaen am dano.

Y Gobaith.—Sylwyd o'r blaen mor ddwfn y teimlai'r Iuddewon eu bod yn "genedl ddewisedig." Yr argyhoeddiad hwn sydd wedi eu cadw yn bobl ar eu penau eu hunain trwy holl gyfnodau eu hanes. Lle bynag y gwasgerid hwy ar wyneb y ddaear, glynent wrth eu gilydd, ac ni wnaent ymgymmysgu â chenedloedd ereill. Dyna un nodwedd a berthynai iddynt. Nodwedd arall yw y gallu i ddyfalbarhau, i ddyoddef, i godi ar eu traed, ar ol cael eu taflu i lawr, i oroesi pob ymosodiad a chamdriniaeth, ac i fyw yn mlaen fel cenedl trwy holl droion a chyfyngderau eu hanes hyd y dydd heddyw. Dirgelwch y nodwedd hon yw y ffaith eu bod wedi eu magu i fyny yn awyrgylch y dysgwyliad byw am y Messiah—y Gwaredwr—Sylfaenydd y deyrnas oedd ar ddyfod; Perffeithydd eu tynghed ogoneddus fel cenedl. "Pan y claddwch fi," meddai un Iuddew wrth farw, "gosodwch esgidiau am fy nhraed, a ffon yn fy llaw, fel y byddaf barod pan ddaw'r Messiah."

Y Rhesymau am y Dysgwyliad.—Y rheswm cyntaf yw am y credent eu bod yn genedl ddewisedig; ac er tywylled y presennol, er mor galed a diobaith eu cyflwr dan yr iau Rufeinig, er enghraifft, nid oedd Jehofah wedi eu hannghofio. Yr oedd ei gynllun o hyd yn addfedu, a daethai y Messiah, cyn hir, i ddwyn gwaredigaeth iddynt oddiwrth eu holl elynion. Yr ail reswm. Yr oedd yr adgof yn fyw yn eu mynwesau am oes ogoneddus Dafydd—oes euraidd y genedl—pan y teyrnasai arnynt frenin oedd ar yr un pryd yn fardd, yn

sanct, yn wron, yn orchfygwr, ac yn sylfaenydd eu dinas sanctaidd. Darfu iddynt droi yr adgof hwn i fod yn obaith ac yn broffwydoliaeth, ac i sefydlu eu golygon ar oes euraidd yn y dyfodol, pan y byddai y Messiah i gael ei eni o deulu Dafydd, yr hwn a orchfygai eu holl elynion, ac a wnai y genedl yn fwy galluog a gogoneddus nag y bu erioed o'r blaen. Yr oedd dydd i ddyfod pan y byddai Israel, yn nghyflawnder ei gallu, wedi ei phuro a'i rhyddhau, yn llywodraethu yr holl genedloedd. Annybyniaeth y genedl a'i llwyddiant rhyfeddol oedd baich y gobaith hwn.

Teyrnas Dduw neu Deyrnas Nefoedd.—Dyma'r enwau a roddid i'r sefyllfa hono o bethau, pan y byddai'r Messiah yn teyrnasu, Jerusalem yn brif ddinas y byd, rhyfeloedd, clefydau, a throseddau wedi diflanu, a'r holl fyd yn ufudd i lywodraeth pobl Jehofah.

Perthynas Iesu â'r gobaith hwn.—Yn meddwl y bobl gyffredin, nid oedd nodwedd uwch ysprydol y gobaith yn cael ond ychydig o le. Felly yr oedd syniad Iesu yn myned yn erbyn y dysgwyliadau cenedlaethol. Yr oedd ei deyrnas Ef oddifewn, a golygai sancteiddrwydd cymmeriad, a mawredd enaid; teyrnas cariad, cyfiawnder a daioni; y pur o galon, y tangnefeddwyr, y trugarogion, y rhai a erlidir o achos cyfiawnder, oedd i fod yn flaenaf yn ei lys Ef fel y Messiah ysprydol. Darfu iddo Ef wedd-newid y syniad, ei ddyrchafu i ystyr uwch—o'r ysprydol, ac nid o'r llythyren; ac mae'n cynnrychioli ynddo ei Hun y gobaith gogoneddus am dangnefedd ac ewyllys da, gwirionedd a daioni, sydd wedi gwneyd Cristionogaeth yn allu cynnyddol trwy yr oesau.

Dylanwad y gobaith hwn ar hanes Iesu.—Pan y daeth dynion i edrych ar Iesu fel y Messiah Iuddewig, darfu i broffwydoliaethau yr Hen Destament roddi lliw neillduol i'r traddodiadau a gynnwysir yn yr Efengylau. Er enghraifft, yr oedd y Messiah i gael ei eni yn Methlehem, dinas Dafydd, ac mae Joseph a Mair, ar neges neillduol, yn Luc, yn cael eu harwain i Bethlehem. Mae'r Iesu yn cael ei eni yno, er ei bod yn fwy tebygol o lawer mai yn Nazareth y ganwyd Ef. Enghraifft arall. Dywed Esaiah fod y Messiah i gael ei eni o forwyn, Esaiah vii. 14. Os felly, nid oedd tad daearol gan Iesu, a ganwyd Ef o'r Ysbryd Glan. Mewn amrywiol ffyrdd, mae y syniad am y Messiah wedi chwareu rhan bwysig er ffurfio y darlun a gawn ni yn yr Efengylau o Iesu Grist (gweler, yn neillduol, *The Seat of Authority in Religion*, gan Dr. Martineau).

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Enwch y geiriau Hebraeg, Groeg, a Saesneg, sydd yn golygu "eneiniog." 2. Beth yw tarddiad y gair "eneiniog?" 3. Beth yw'r ddefod mae'r gair yn awgrymu? 4. Pa argyhoeddiad sydd wedi cadw y genedl Iuddewig ar wahan oddiwrth ereill? 5. A ydynt yn parhau i fod ar eu penau eu hunain hyd heddyw? 6. Enwch nodwedd arall sydd yn perthyn iddynt. 7. Sut ydych yn cyfrif am y nodwedd hon? (7) A ydyw gobaith yn deimlad iachus?

8. Adroddwch eiriau yr Iuddew wrth farw. 9. Enwch rai amseroedd enbyd yn hanes y genedl. (9) Rhoddwch y rheswm cyntaf am y dysgwyliad. 10. Yr ail reswm. (10) Pa un oedd oes euraidd Israel? 11. Pa bryd y blodeuai Dafydd? 12. Enwch y prif bethau cynnwysedig yn y gobaith am y Messiah. 13. Beth olygent wrth "deyrnas Dduw" neu "deyrnas nefoedd?" 14. Beth olygai'r Iesu wrthynt? 15. Pwy oedd y blaenaf yn ei deyrnas ef? 16. Yn mha le yr oedd y Messiah i gael ei eni? 17. Dangoswch fod y gred yn Iesu fel y Messiah Iuddewig wedi bod yn achos i'r gwir Iesu gael ei gamddarlunio?

TACHWEDD 29.

Gwers VIII.—Adolygiad o'r Gwersi Blaenorol.

W. J.

Y BLODYN GLAS.

Hoffder bardd a llatai'r galon
  Tlws gan Natur a chan serch,
Galwant ef yn—*Nad fi'n annghof*—
  Enw taerni mwyaf merch.

Glasach yw na'r nefoedd lasaf,
  Glasach yw na r mor ei hun,
Sut y medraf lai na'i garu;
  Llygad glas sydd gan fy mun.

Pe bai'r ddaear heb friallu,
  Byddai'r Haf yn Haf i mi;
Byddai lliw y mor a'r nefoedd
  Yn ei lygaid ef a hi.

O! ni fedraf lai na'i garu,
  Flodyn glas yn anad un;
Na, nid er ei fwyn ei hunan—
  Llygad glas sydd gan fy mun

Digon yw o lythyr caru,
  Os ar ddalen wen y daw,
Pan fo 'tano enw rhywun
  Wyf yn adwaen wrth ei llaw.

A oes rhywun feia arnaf?
Nis gwaeth genyf fi pa un;
Gwn nas gwnaethai pe gwybyddai—
Llygad glas sydd gan fy mun.

Y Llan, Gorph. 24, 1896. EIFION WYN.

"GWNEWCH EICH GOREU."

2 PEDR iii. 14.

(Traddodwyd yn Furnival Street, Llundain, Medi 13eg, 1896).

GAN D. DELTA EVANS.

DYWEDIR i'r ddau epistol a briodolir i Pedr gael eu hysgrifenu ganddo at y dyeithriaid oeddynt ar wasgar trwy wahanol wledydd Asia Leiaf, sef "Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia." Fel y mae yn hyspys, yr oedd Pedr ei hunan yn un o'r deuddeg apostol, a thybir ei fod wedi gweled mwy o'r Athraw a'i weithredoedd, wedi clywed mwy o'i gynghorion a'i addysgiadau, ac wedi yfed yn helaethach o'i yspryd brwdfrydig cenadol ef, nag unrhyw un o'r apostolion ereill. Er nad oedd Pedr ond dyn digon cyffredin pan ddaeth efe gyntaf i gyffyrddiad â Iesu o Nazareth,—dim ond mab i Jonas, pysgottwr tlawd a drigai ar y pryd yn nhref fechan a dinôd Bethsaida, ar lan Llyn Genesareth, yn Galilea,—etto canfyddodd yr Athraw yn ebrwydd ei fod ef yn ddyn o galon fawr, o feddwl eang, o serchiadau cynhes, ac o yspryd bywiog a phenderfynol, a'i fod yn meddu yr holl gymhwysderau angenrheidiol i'w alw yn ddysgybl iddo, ac yn wir deilwng o ymddiriedaeth fel un y gallasai Iesu yn rhwydd ddadlenu ei fynwes ger ei fron ef gyda golwg ar gynllun mawr ei genadwri i'r byd—ei amcanion, ei ofnau, a i obeithion; yn wir, y mae hyder yr Athraw yn y dyn hwn mor gyflawn fel nad ydyw am foment yn petruso dadguddio iddo hyd yn nod *secrets* penaf ei galon a phrif syniadau ei feddylfryd. Gwir ddarfod i Pedr gwympo i waradwydd fwy nag unwaith yn ystod tymhor ei ddysgyblaeth, ond try allan ar y cyfan yr hyn oll a ragwelasid gan yr Athraw, a gwna bob cyfiawnder â'r gwaith pwysig a gyflwynid i'w ofal. Amlygir yn ei epistolau ef allu meddyliol grymus a threiddgar, ac argyhoeddiad dwfn a diysgog—y maent yn llawn o foesoldeb dilwgr ac addysg grefyddol o'r radd uwchaf. Chwanegir at ddyddordeb ei ail epistol gan y ffaith iddo gael ei ysgrifenu yn y carchar, tra'r oedd yr awdwr yn dysgwyl bob amrantiad cael ei roddi i farwolaeth. Cynnwysa felly eiriau olaf yr apostol i'r cenedloedd y gwnaeth efe gymmaint er eu mwyn trwy ei

ymgais diflino i'w goleuo a'u haddysgu mewn crefydd a moesoldeb, ac i'w cysuro a'u dyrchafu trwy ledaenu yn eu mysg newyddion da Cristionogaeth.

Yn yr adran o'r bennod ag sydd yn blaenori y testyn, ceir desgrifiad bywiog o'r cynddrych a goleddai yr apostol am ddarfodedigaeth a thranc pechod; ac y mae y darlun cywrain a dynir ganddo â'i ysgrifbin o ddiwedd byd o ddrygioni a llygredigaeth, a'r awgrym a wna at ddadblygiad byd newydd o iawnder a daioni, yn amlygu yn eglur gyfoeth a grym ei ddychymyg a godidogrwydd ei allu meddyliol ef, ond yn fwy na'r cyfan ansawdd moesol ei gymmeriad, purdeb ei dduwioldeb, ac angerddolder ei gariad ef at ddynoliaeth. Fel hyn yr ysgrifena Pedr, yn ei arddull dihafal ei hunan:—

Eithr dydd yr Arglwydd a ddaw megys lleidr y nos; yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir.

A chan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb,

Yn dysgwyl ac yn brysio at ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn y nefoedd gan losgi a ymollyngant, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant.

Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ol ei addewid Ef, yn eu dysgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu.

O herwydd paham, anwylyd, gan eich bod yn dysgwyl y pethau hyn, gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo Ef mewn tangnefedd, yn ddifrycheulyd, ac yn ddiargyhoedd.

(2 Pedr iii. 10—14.) Credir yn gyffredin mai desgrifiad llythyrenol sydd yma o "ddydd y farn," "diwedd y byd," a llosgiad y greadigaeth faterol yn y dydd diweddaf; fod Pedr, fel cyfrwng Dwyfolysprydoliaeth, wedi rhagweled y pethau ofnadwy hyn, ac wedi ei gynhyrfu i'w hysgrifenu, fel ag i ragrybuddio y cenedloedd i fod ar eu gwyliadwriaeth! Y cyfryw ydyw y syniadau a geir fel rheol yn yr esponiadau iawnffyddol, lle bradychir tuedd hoff y "duwinyddion" i fateroli pob desgrifiad barddonol, pob ehediad dychymygol, a phob ffugr ieithyddol a geir yn y Beibl, gan dalu gwarogaeth annyladwy i'r llythyren ar draul anwybyddu yr yspryd.

"Fe lysg y byd yn ulw mân,
Fe dry'r greadigaeth fel o'r blaen:
Cwymp y planedau, er eu maint,"

meddai yr hen fardd swynol o Bantycelyn, ac y mae y mwyafrif o'r beirdd crefyddol uniawngred yn telynu yn ddiddiwedd ar yr un tant.

(I'w barhau.)

UNDODIAETH YN NGHYMRU.

Tybiaf y cytunwch â mi, Mr. Gol., ei bod yn bryd bellach i wneuthur rhywbeth tuag at gasglu defnyddiau hanes Undodiaeth yn Nghymru; ac o bossibl y cytunwch hefyd i roddi lle yn yr Ymofynydd o bryd i bryd i ambell erthygl fydd yn helpu yn y

cyfeiriad hwnw. Wele ychydig nodynau allan o'r *Monthly Repository* am 1806 :—Yn Cyf. I., tud. 162, ceir hanes marwolaeth y Parch. David Thomas (1775—1806), genedigol o rywle yn ymyl Aberteifi. Cafodd ei addysgu gan y Parch. John Evans, Islington. Priododd â chwaer-yn-nghyfraith y Parch. William Richards, o Lynn. Ymsefydlodd fel gweinidog yn Lutton, ger Wisbeach. Yr oedd yn ŵyr i'r Parch. David Thomas, Cilfowyr (1699—1773).

Tud. 497.—Cynnaliwyd cyfarfod blynyddol Undodiaid Deheubarth Cymru yn Llwynygroes *(sic)*, lle yr oedd y Parch. John James yn weinidog. Darllenwyd a gweddiwyd gan Peter Charles, Haverfordwest, a phregethodd Thomas Davies, Coedycymmer, a Thomas Rees, Gelligron [Gellionen]; y cyntaf ar "Ragfarn" (Ioan i. 46), a'r ail ar y "Pwysigrwydd o gael syniadau cywir am Dduw a Iesu Grist." Cawd dau wasanaeth y dydd o'r blaen, un yn y boreu yn Mhantdefaid, lle y pregethodd Peter Charles a Mr. Rees; ac yn y prydnawn yn Llwynygroes, pregethodd Mr. Benjamin Phillips, St. Clears. Dywedir fod rhwng 4 a 5 mil o draethodynau wedi eu gwasgar yn Nghymru oddiar sefydliad y gymdeithas yn 1802, gyda'r canlyniad, "fod Undodiaeth, yr hon oedd y pryd hwnw yn gyfyngedig i ychydig bersonau, ac i rai rhanau o'r Deheudir, wedi cael ei chofleidio gan luoedd o Gristionogion difrifol, ac wedi ei gwasgar yn gyffredin drwy ddeheubarth y Dywysogaeth." Nis gwn pwy ysgrifenodd yr hanes hwn, ond y mae'n amlwg ei fod yn cyfyngu'r enw Undodiaeth yn y fath fodd ag i gau allan yr hen eglwysi Presbyteraidd, y rhai a ddalient y syniadau Ariaidd.

Mai 13eg a 14eg, 1806, cynnaliodd y Bedyddwyr Cyffredinol eu cyfarfod blynyddol yn Nghlydach, ger Abertawe. Dechreuwyd dydd Mawrth gan William Morris, a chafwyd pregethau gan John Thomas (Actau viii. 5), a John Davies (Heb. iv. 1), a therfynwyd gan Evan Llwyd. Dydd Mercher, yn Abertawe, dechreuwyd gan Joseph James, a phregethwyd gan Nathaniel Williams (Rhuf. i. 16), ac yn Saesneg gan William Morris (Salm civ. 34). Yn y prydnawn, dechreuwyd y gwasanaeth gan William Thomas, a phregethodd John Richards (Actau xi. 23), a Thomas Rees, Gelligron, yn Saesneg. Mewn nodyn ar waelod y ddalen, hyspysir nad oedd Mr. Rees yn Fedyddiwr. Hyspysir fod y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn Aberteifi, Mai 20fed, 1807, a chyfarfod yr hwyr o'r blaen yn Nghastell Newydd Emlyn. Pennodwyd Thomas Jenkins, William Morris, a William Thomas i bregethu.

Ar tud. 609, ceir hanes urddiad y Parch. Peter Charles fel gweinidog i'r achos oedd newydd ei sefydlu yn Templeton, Sir Benfro. Dechreuwyd trwy weddi gan ei hen weinidog, Mr. Evans. Cymmerodd D. Davis, Castell Hywel, a Benjamin Phillips, Salem, ran yn y gwasanaeth. Dywedir fod cynnulleidfa Mr. Charles yn wreiddiol yn Galfiniaid, ac iddynt trwy ymofyniad gael eu harwain yn gyntaf i goleddu athrawiaeth Iachawdwriaeth Gyffredinol. Wedi hyny, aethant yn Sabeliaid trwy ddarllen gweithiau Peter Williams, yr esponiwr, yr hwn a gafodd ei dori allan oddiwrth y Methodistiaid

o herwydd ei heresi, ac yn ddiweddaf oll daethant yn Undodiaid. Cyfarfyddent mewn ystafelloedd trwyddedig yn y gymmydogaeth, er eu bod yn awyddus i gael capel bach iddynt eu hunain mewn man cyfleus.

Yn rhifynau y *Monthly Repository* yr ymddangosodd "Cambrian Biography" y Parch. William Richards, o Lynn, gyntaf—gwaith gwerthfawr iawn a dyddorol, ond prin erbyn heddyw.

Ceir Bywgraffiad y Parch. Charles Winter (1700 –1773), gweinidog Craig y Fargoed, yn mhlwyf Bedwellty, yn yr un gyfrol, wedi ei ysgrifenu gan y Parch. Jacob Isaac, Moreton Hampstead, brodor o Bedwellty. Cyhoeddwyd eisoes hanes C. Winter a'r eglwys yn Nghraig-y-Fargoed yn yr YMOFYNYDD.

Nodynau ychwanegol allan o'r "M. R." am 1806.

Tud. 76, ceir y gwreiddiol yn y Ffrancaeg o un o ddarnau barddonol Castell Hywel, sef "Mi debygswn yn fy mreuddwyd," &c.

Tud. 110, cyfeiriad at daith yr Archesgob Baldwin trwy Ddeheu a Gogledd Cymru yn 1188.

Tud. 385, ceir cyfeiriad at y Parch. Evan Jones, diweddar o Goleg Caerfyrddin, ac o Moseley, ger Dudley, fel un o ddau yn cymmeryd gofal eglwysi Dudley, Milford, Belper, Ripley, a Leewood, ger Matlock, yn Swydd Derby.

Tud. 550, cyfeirir ato fel un o weinidogion y cylch.

Tud. 445, hyspysir fod "Cambro British Biography ' William Richards yn y wasg, pris 5s.

Yn 1693, cyhoeddodd James Owen "Bedydd Plant o'r Nef," y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd yn Nghymru ar ddadl y Bedydd. Attebwyd ef gan Benjamin Keach, yr hwn a gyhoeddwyd yn y Gymraeg dan yr enw "Goleuni wedi tori allan yn Nghymru," 400 tudalen.

BETH YW MARWOLAETH?

Y PLENTYN A'I FAM.

Fy mam, mor llonydd yw mrawd bach,
  Ei lais ni ddaw i'm clyw;
Nis gallaf wel'd ei wenau iach,
  D'wed rhai mai marw yw!

Dywedent, cyfyd etto ef
  Yn wychach fry o'r glyn,
Y ceidw Duw o yn y nef;
  O! mam, pa fodd bydd hyn?

Fy mhlentyn gwel y glöyn byw
  Yn chwareu fry uwch ben,
Bu yn abwydyn swrth a gwyw
  Ar lawr, yn llwm ei len.

O, mam! mi wn yn awr, mae'n wir,
  Gan gall Duw godi'r pryf,
A rhoi adenydd uwch y tir
  I bryfyn nad oedd gryf.

Mi wn mai hardd fy mrawd a fydd
  Pan Duw a i cyfyd ef,
Yn 'hedeg fyth yn ngwlad y dydd,
  Yn nghwmni glan y nef.

Llandegai. OGWEN FARDD.

DUW YN CLORIANU GWEITHREDOEDD DYNION.

Y MAE Duw trwy'r gydwybod wedi rhoddi i ddynion, yn mhob oes ac yn mhob gwlad ryw gymmaint o wybodaeth am dda a drwg, uniawn ac anuniawn; i rai o honom fwy, i ereill lai. A thra y mae un genedl wedi ei galluogi i osod y meddylddrychau hyn allan mewn barddoniaeth aruchel ac iaith wresog, y mae cenedl arall wedi eu cerfio'n anmherffaith mewn careg neu eu llinellu'n drwsgl â'r ysgrifêll.

Ceir y gymhariaeth o Dduw yn pwyso bywyd a gweithredoedd dynion yn fynych yn y Beibl, ac yn gyffelyb fe'i ceir ar y meini coffa yn yr Aifft mor foreu a dim sydd yn yr Ysgrythyrau. Yn Amgueddfa Syr John Soane yn Llundain, gellir gweled beddfaen (*sarcophagus*) o alabaster cerfiedig a ddarganfyddwyd yn medd Belzoni. Ar hwn y mae darlun, lle y gwelir dynion yn dringo i fyny'r grisiau i gael eu barnu. Dedfrydir rhai am eu pechodau i

weithio â phicisau yn y mwnlawdd tanddaearol; a thrawsffurfir ambell i un i fochyn, ac y mae yn cael ei gario i ffwrdd mewn bad i gael ei gospi.



Y mae darlun arall, ac un mwy cyffredin, o olygfa dydd barn i'w weled ar y rholiau Papyrus, y rhai a geir wedi eu claddu gyda'r mwmïau yn y beddau. Y mae peth amrywiaeth yn y manylion, ond dim gwahaniaeth yn y drefn gyffredinol y gosodir hwy gyda'u gilydd. Y mae Osiris, duw mawr y meirw, yn eistedd fel barnwr ar orsedd ddyrchafedig; tra y mae'r marw â'i ddwy law i fyny, megys mewn gweddi, yn cael gan ddwy dduwies ei ddwyn i'r Neuadd Fawr, yn cario plyfyn arwyddocaol o wirionedd ar eu penau. O'u blaen y mae pâr o fantolau, darlun o wirionedd yn eistedd yn y naill, a phwysau bychan arwyddluniol o garitor neu ymddygiad y marw yn y llall. Y mae dau dduw yn cymhwyso'r mantolau; Horus â'i ben hebog yn symmud y pwysau ar hyd y paladr neu'r trawst, ar egwyddor y pwyslath (*steelyard*), ac Anubis ben-ci yn gwylio cywirdeb y mantoliad. Y mae Typhon y felldith, ar lun *hippopotamus*, yn cyhuddo'r marw; a phedwar o dduwiau llai yn eistedd gerllaw i gyfryngu ar ei ran; uwch ben y mae dau a deugain o gynnorthwywyr cyfreithiol (*assessors*), oll yn barod i ateb am ei ddiniweidrwydd yn ei berthynas i ryw un pechod neillduol: "Ni ladrataodd"; "Ni chyflawnodd lofruddiaeth"; "Ni ddygodd gam.dystiolaeth," &c. Y mae allor fechan, gyda blodeuyn y Lotus, yn arwyddluniol o'r aberthau, wedi ei gosod o flaen y barnwr, un

arall o flaen y cynnorthwywyr, a'r drydedd o flaen duwiesau gwirionedd, yn dangos dymuniad naturiol iawn am wyro barn yn ei ffafr. Saif Thoth, gyda'i ben Ibis, ac ysgrifell yn ei law, yn barod

i gyhoeddi y ddedfryd, ac epa ar ben post yn barod i roi help. Cerid allan y darluniad cywrain yma o farn ddyfodol ar farwolaeth pob un trwy gael ei actio gan yr offeiriaid yn yr angladd, y rhai a wisgent wynebgudd neu fwgwd er personoli y duwiau; a gwneid hyny gyda'r dyben i argraffu ar yr ymwelwyr ddifrifoldeb y dyfodol.

Wrth droi at y Beibl, yr ydym yn cael yr un meddylddrych. Megys yn Diar. xvi. 2, "Yr Arglwydd a bwysa yr ysprydion"; Job a ddywed, xxxi. 6, "Pwysed fi mewn clorianau cyfiawn"; a Daniel, v. 27, "Ti a bwyswyd yn y clorianau."

Ceir y gymhariaeth o Dduw yn eistedd fel Barnwr ar y Dydd Mawr yn y Beibl, yn ogystal ag ar yr hen feini coffa. Yn Joel iii. 9—17, ceir desgrifiad darluniadol o hyn yma, lle y dywed y proffwyd, "Cyhoeddwch hyn yn mysg y cenedloedd, gosodwch ryfel, deffrowch y gwyr cryfion," &c. Yn Matth. xxiv. 31—46, Iesu sydd yn eistedd ar yr orsedd, megys Brenin yn lle Duw, i farnu dynion, a gyrir y drwg i un cyfeiriad a'r da i gyfeiriad arall.

Os benthyciodd yr ysgrifenwyr Hebreig y meddylddrychau hyn o'r Aifft, cyfyd y gofyniad yn naturiol, sut y maent yn hyn, megys mewn llawer peth arall, wedi eu galluogi mewn modd ardderchog i ddal ar y meddwl cynnorthwyol, a gadael ar ol yr ofergoeliaeth isel a gawn wedi ei gosod allan yn y darluniau rhagflaenol?

CWM RHONDDA.

Mr. Gol,—Caniatewch i mi trwy gyfrwng Yr Ymofynydd ddiolch i'r lluaws cyfeillion yn Sir Aberteifi a manau ereill ydynt wedi cyfranu symiau o arian at Drysorfa Adeiladol (Building Fund) ein capeli newyddion, ac i erfyn yn garedig ar ereill y rhai ydynt abl, ond nad ydynt eisoes wedi gwneyd hyny, am gynnorthwy ychwanegol. Nid ydys etto wedi derbyn ond ychydig iawn o'i gymharu ar ddyled fawr sydd arnom. Cyhoeddir enwau yr holl danysgrifwyr yn yr amser cyfaddas. Y rheswm nad ydys eisoes wedi gwneyd hyny yw y byddai yn gost fawr a ninau mor brin o'r "cregin." Dywedir fod masnach yn y Cwm yn fwy marwaidd nag y bu erioed yn nghof y trigolion henaf. Gellir dweyd am y gweithfeydd glô yma yn ngeiriau y bardd *witty* Watcyn Wyn, y medr pob glöwr ennill ynddynt "*Any amount* o wres, ond wfft cyn lleied o bres!"

Mae'r brodyr yma wedi, ac yn cyfranu eu goreu at y Drysorfa; mewn gair, y maent wedi gwneyd hunan-aberth ganmoladwy, ond y gwaethaf yw, fod yr ennillion mor druenus o wael.

Appeliaf yn daer, a'r ran y ddwy eglwys, at haelfrydedd pob ewyllysiwr da y mudiad Undodaidd yn Nghwm poblog y Rhondda, yn nghyda phob un sydd a lledaeniad crefydd rydd yn agos at ei galon, am gynnorthwy arianol yn yr argyfwng pwysig hwn ag y mae Undodiaeth yn pasio trwyddo yn y Pentre a Chwm Clydach.

Y mae yn hyspys i'r rhan fwyaf o Undodiaid Cymreig i'r undodwr twym-galon o'r Amerig, J. Thomas, Ysw., Furnace Co., Niles, Trumbull Co., Ohio, enw yr hwn sydd wybyddus bellach i bawb o honom, mewn atebiad i'm llythyr am gymhorth, anfon yn garedig £40 i'w cyfranu yn gyfartal rhwng y ddwy eglwys.

Gobeithiaf ei fod erbyn hyn wedi ei gyflawn adferu i'w iechyd, a'i fod ef a'i deulu yn mwynhau cysuron bywyd yn ngwlad eu mhabwysiad. Erfyniaf lythyr maith oddiwrtho yn ddyddiol, canys myfi yw yr hwn ysgrifenodd ddiweddaf.

Gan obeithio na fydd fy appel yn ofer, ydwyf, &c.,

IVOR DAVIES, Gweinidog.
Parch. W. GRIFFITHS, Ph.D., B.D. (Cenadwr lleol)
50, The Parade, Pontypridd.
Trysorydd—Mr. JOSEPH JENKINS (Contractor),
Clydach Vale, Pontypridd.
Ysgrifenydd—Mr. D. M. THOMAS, 95, Bute Street,
Treorci.

Y DORTH.

Y dorth, prif ymborth y byd,—sai' rhyngom
A sur angenoctid;
Blaenffrwyth pur, diseguryd,
O law Duw hael, da, o hyd.—D. O. Jenkins.

NODYNAU GWASGAROG.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.

CYNNALIWYD y pwyllgor hwn am y waith gyntaf yn Alltyplaca, dydd Mercher cyntaf yn mis Medi, pryd yr oedd yn bresennol y Parchn. J. Davies, Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair; W. James, T. Arthur Thomas, E. E. Jenkins, L. Williams, a'r cynnrychiolwyr canlynol:—Mri. E. Thomas a T. Jones, Alltyplaca; John Evans, Capelgroes; Tom Evans, Ciliau; Capt. Davies, Llwynrhydowen; D. Davies, Caeronen; a James Jenkins, Blaenwaun. Amcan y cyfarfod oedd tynu allan gynllun a pharatoi gwaith i'n Hysgolion Sul. Darllenwyd llythyrau yn cynnwys awgrymiadau oddiwrth y Parchn. Jenkyn Thomas, R. J. Jones, Aberdar; a J. Hathren Davies, Cefncoed. Penderfynwyd mai yr un "Maes Llafur" sydd i bob ysgol, sef, Efengyl Marc, ac fod y Parch. W. James i baratoi gwersi, i ymddangos yn yr YMOFYNYDD ar y maes hwnw. Pasiwyd hefyd fod i'r gweinidogion i sefydlu dosparth athrawon yn eu gwahanol gynnulleidfaoedd. Bydd pob ysgol yn cael ei rhanu i bedair safon. Bydd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn paratoi cwestiynau syml i'r safon iselaf, y rhai a ymddangosant yn YR YMOFYNYDD. Bydd i'r ail safon baratoi y pum pennod gyntaf yn Holwyddoreg y Parch. D. Evans, ar "Fywyd Iesu Grist." Safonau 3ydd a'r 4ydd i barotoi Efengyl Marc. Bydd cwestiynau safon 3ydd yn hawddach na'r 4ydd, a gall pob ymgeisydd ddewis yn mha un o'r safonau i gael ei arholi.

Cynnelir arholiad cyffredinol nos Fercher cyntaf yn mis Ebrill, 1897, Mr James, Llandyssul, fydd yr Arholwr Cyffredinol. Bydd pedair o *centres*, er rhoddi pob rhwyddineb i'r ymgeiswyr,—Pantydefaid yn cael ei arolygu gan y Parch. J. Davies a Mr. George Thomas, Newport; Capelygroes yn cael ei arolygu gan y Parch. T. Thomas a Mr. J. R. Thomas, Pontshan; Rhydygwin yn cael ei arolygu gan y Parch. R. C. Jones a Mr. D. Teify Jones, Lampeter; Brondeifi yn cael ei arolygu gan y Parchn. E. E. Jenkins a D. Evans, Cribin. Bydd yr arholiad yn cael ei chario yn y blaen drwy holi ac ateb, ac nid drwy ysgrifenu. Rhoddir *certificates* i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Rhywbeth tebyg i'r uchod ydyw y trefniadau a wnawd yn Alltyplaca, a gobeithio fod pob un yn eu deall, er eu bod yn edrych dipyn yn *complicated* ar y papyr. Hyderaf y gwna pob un o'n Hysgolion gymmeryd y mater i fyny yn ddifrifol, fel y byddo llwyddiant yn canlyn yr ymdrech hon, i gael rhagor o drefn a chydweithrediad yn ein Hysgolion Sul.

Cyfarfu Pwyllgor Morganwg yn Abernant, nos Fercher, Medi 23ain. Derbyniwyd cynllun Sir Aberteifi yn unfrydol—ond pasiwyd i anfon cais at yr Ysgrifenydd Mr. James. 1. I ganiatau yr arholiad i gael ei ddwyn yn mlaen mewn ysgrifenu, os bydd rhywrai yn ewyllysio hyny. 2. Ar i'r gofyniadau ar gyfer yr arholiad i fod yn Gymraeg a Saesneg, er mantais y sawl y mae yn well ganddynt yr

olaf na'r blaenaf. Pennodwyd y canlynol yn Arholwyr lleol—Aberdar: Parchn. D. J. Williams a J. Hathren Davies. Merthyr: Y Parch. R. J. Jones, M.A. a Mr. D. Evans. Rhondda: Parchn. T. J. Jenkins a W. J. Phillips. Gellionen: Parchn. Dr. Griffiths ac Ifor Davies. Nottais: Parchn. J. Thomas a Fisher Jones.

HOLEB AM EVAN TOMOS RHYS.

Nid oes dim gwybodaeth am amser genedigaeth na marwolaeth E. T. Rhys, y bardd o Lanarth. Wn I a fydd a ganlyn yn help i gael rhywbeth yn agos i'r adeg y bu farw? Yr oedd E.T.R. yn hen dadcu i Evan Tomos o Horeb, ac hefyd i Mrs. Williams, Gracechurch Street, Llundain. Cwrddais a Mrs. W. yn Llandrindod y dydd o'r blaen, a dywedodd wrthyf fod E.T.R. yn fyw pan fu farw ei mamgu, Catherine gwraig Francis Thomas (i'r rhai y bu 14 o blant). Yr oedd mam Mrs. Williams yn wyth oed pan fu farw hono. Bu farw ei mam yn 88 oed, ac y mae wedi ei chladdu yn hen fynwent Llwynrhydowen. Merch oedd i felin Pantolwen. Yn awr pwy fydd garediced a chwilio am fanylion yr olaf. R.J.J.

MELUS DAMAID IAWN-FFYDDOL.

Mewn capel M.C. Cymraeg yn Llundain, nos Sul, Awst 3, 1896, rhoddodd y pregethwr ieuanc floedd uchel o'r pwlpud: "'Rwyf am roddi *proof* i chwi heno, gyfeillion, fod crefydd yn *safe investment*. Y mae trefn y cadw yn cael ei chario yn mlaen gan *limited liability company* Dwyfol. Yn y nefoedd y mae yr *head office*; Iesu Grist ydyw y *Secretary*, a Duw ei Hunan ydyw *Managing Director* y *firm*. Y mae ffeithiau fel hyn yn *security* digonol i'r mwyaf *doubtful*. Gall pawb ddyfod yn *shareholders* yn y *concern* hwn, a gallant fod yn *perfectly confident* y cânt yn y diwedd *interest* gwir *substantial* ar eu *capital*." Gwych, onid ê? D.D.E.

Manion ac Hanesion.

Y CYRDDAU CHWARTEROL.—Cynnaliwyd yr uchod yn Gellionen a Chraig-Trebanos, nos Fercher a dydd Iau, Hydref 7 a'r 8, 1896. Cafwyd y cwrdd nos Fercher yn Nghapel y Graig, Trebanos, am 7 o'r gloch. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul, a phregethwyd gan y Pachn David Evans, Cribyn, a J. Fisher Jones, Cwmbach.

Boreu dydd Iau am 10 30 cynnaliwyd y cyfarfod yn hen gapel Gellionen. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a phregethwyd gan y Parch. W. James, B.A., J.P., Llandyssul, sef y pregethwr appwyntiedig. Cafwyd pregeth fendigedig gan Mr. James Yr oedd yn traethu yr hen wirioneddau gyda nerth a dylanwad, heb hidio gwg na gwên neb.

Neillduwyd cyfarfod y prydnawn, yr hwn a gynnaliwyd yn yr un lle, i ordeinio Mr. T. J. Jenkins o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin yn weinidog i'r eglwysi uchod. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefn, a phregethodd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, y siars i'r gweinidog; a'r Parch. J. Davies, Alltyplaca, y siars i'r eglwys. Cafwyd pregethau grymus a chynghorion gwerthfawr gan y ddau bregethwr hyn, a gobeithio y ca yr hyn ddywedwyd ganddynt y sylw dyladwy gan yr eglwys a'r

gweinidog, ac yna byddant yn alluog i gydweithio â'u gilydd mewn undeb a chariad, a thrwy hyny i fod yn offerynau yn llaw Duw i droi llawer o gyfeiliorni eu ffyrdd.

Cynnaliwyd cyfarfod yr hwyr yn Nghraig-Trebanos. Dechreuwyd gan y Parch. J Davies, Alltyplaca, a phregethwyd gan Mr. E. Gwilym Evans, Rhydychain, a'r Parch. J. Hathren Davies, Cefn, pryd y cafwyd diweddglo hapus i gyfres o gyfarfodydd gyda'r goreu a glywsom erioed. Gwelsom yn bresennol o weinidogion heblaw y rhai a enwyd uchod y Parchn. J. B Lloyd, Liverpool; Jenkin Thomas, Highland Place; W. J. Phillips, Nottais; E. Jenkins, Capelgroes; yn nghyd a'r Parchn. Morgans a Griffiths (M.C.), Lewis (B.), a Jenkins (A.). Y mae Mr. Jenkins yn dechreu ar ei weinidogaeth yma gyda'r dymuniadau goreu, a'n dymuniad yw iddo gael hir oes i wasanaethu ei Dduw yn y maes hwn. Carem sylwi hefyd fod yr eglwysi hyn wedi ymgymmeryd â Llyfr Tonau ac Emynau Mr. D. Eiddil Jones, ac yr ydym yn teimlo fod un o angenion mawr ein henwad wedi cael ei lanw trwy gyfrwng y llyfr ardderchog hwn.

PRIODAS. - Medi 23, 1896, yn Gellionen, gan y Parch. T. J. Jenkins a'r Cofrestrydd, Mr. William Morgans, mab Mr. John Morgans, Clyneithrym, â Miss Mary Morgan, merch Mr. Henry Morgan, Trebanos Hawddamor iddynt.

PRIODAS.—Medi 26, yn Bwlch-y-Fadfa, gan y Parch Arthur Thomas, yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Gwilym Evans, Thomas Thomas, Crug-yr-Eryr Factory, â Miss Margaret Jones, Rhydsais, Talgarreg.

PRIODAS.—Medi 29, yn Nghapelgroes, gan y Parch. E. E. Jenkins, yn mhresennoldeb y Cofrestrydd, Mr. Titus Evans, Mr. William T. Jenkins, Clynmeherin, Llanwennog, â Miss Mary Anne Evans, ail ferch i Mr. a Mrs. Evans, Llanfihangel, Ystrad.

Eu hundeb fo'n gyfatebol—i'r wers
Ar eu hawr briodasol;
Iddynt roed yn gydraddol,
Yn fwyn iawn foent fyw yn ei hol.

PRIODAS.—Hydref 6, yn Alltyplaca, gan y gweinidog, yn ngwydd y Cofrestrydd, Mr Thomas Evans, Maesmynach, â Miss Elizabeth Davies, Lowtre. Hir oes ddedwydd i'r ddau.

CEFN COED.— Cynnaliwyd Cyrddau Diolchgarwch yn y capel hwn ar yr 11eg o Hydref, pryd y pregethwyd gan y Parch E D. Priestly Evans i dyrfaoedd lluosog. Mae y gweinidog hefyd yn traddodi cyfres o ddarlithiau ar nos Sulian, ac y maent yn tynu cryn sylw yn y lle.

Y WIG.—Bu Cyrddau Diolchgarwch yn y capel hwn dydd Llun, Hyd. 5, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch W. J. Phillips a Mr. D. Evans, Aberdar. Yr oedd y capel wedi ei addurno yn dlws iawn, a'r cynnulliad yn ardderchog.

LLWYN.—Deallwn fod Mr E. Gwilym Evans, o Rhydychain, wedi derbyn galwad unfrydol oddiwrth eglwysi y Bwlch a'r Llwyn, ac yr ydym yn mawr hyderu y bydd iddo ei hateb yn gadarnhaol.

ABERDAR.— Cynnaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr Hen Dy Cwrdd ar y 18fed a'r 19eg o Hydref. Dydd Sul, gwasanaethwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a nos Sul gan y Parch. Ddr. Griffiths. Cafwyd cyfarfodydd ardderchog yn mhob ystyr.

MERTHYR.—Cynnaliodd yr eglwys hon ei Chyrddau Diolchgarwch dydd Sul, Hydref 11. Y gweinidog—y Parch. D. J. Williams, oedd yn gwasanaethu, a rhoddodd ei bregethau foddlonrwydd mawr i gynnulleidfaoedd lluosog

GRAIG, TREBANOS.—Cynnaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch yn y lle uchod, nos Lun, Hydref 19, pryd y gwasanaethwyd yn ddeheuig iawn gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Pregethodd Mr. Davies oddiar y geiriau a welir yn Salm ciii. 1, 2. Cawsom oedfa dda a phregeth ardderchog. Teimlad pawb wrth ymadael oedd, "Mai da oedd i ni fod yno." Teimlwn yn ddiolchgar i Mr. Davies am ei barodrwydd i gydsynio a'n cais, ac hefyd am ei wasanaeth odidog. Gobeithiwn y caniata Duw hir oes iddo, ac y cawn y pleser yn fuan etto o wrando arno yn traddodi y genadwri fel y mae yn arfer gwneyd.

PANTDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSSUL. —Cynnaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn y lleoedd uchod ar ddydd Sul, Medi 27, pan y pregethodd y Parchn. John Davies, Alltyplacca, a Lewis Williams, Rhydygwin. Gwnaed casgliadau yn y pedwar cyfarfod at Drysorfa y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

CAPEL Y BRYN, CWRTNEWYDD.—Cyfarfu Pwyllgor Cymmanfa Gerddorol Ceredigion yn y lle uchod prydnawn dydd Sul, Medi 27. Er fod yr hin yn

arw ac ystormus, daeth nifer lluosog yn nghyd. Yr oedd yno ddau gynnrychiolwr oddiwrth bob cynnulleidfa gyda'r eithriad o Ciliau Aeron. Darllenwyd y fantollen am y flwyddyn 1895—1896, ac ar ol pleidleisio £1 i'r Ysgrifenydd, a £2 2s. i'r Parch Arthur Thomas at y drysorfa sydd wedi ei chychwyn er sicrhau argraffiad i'r Llyfr Tonau ac Emynau yn yr Hen Nodiant, yr oedd yn aros yn weddill rhyw £4 10s. (yn ddiamheu bydd lluaws o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn falch i glywed fod Mr. Thomas wedi llwyddo i gael addewidion am yn agos i £40 at yr amcan hwn). Ar ol i'r Ysgrifenydd, Mr. J. R. Thomas, Pontshân, a Mr. W. James, B.A., y Trysorydd, ymddiswyddo, pennodwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf:—Cadeiryddy Pwyllgor, Mr. W. James, Brynhyfryd; Ysgrifenydd, Mr. John Jones, Felin Rhydowen; Trysorydd, Capt. Davies, Rhydowenfach. Penderfynwyd fod y Gymmanfa nesaf i fod yn Llanbedr ar y dydd Mercher cyntaf yn Mehefin, 1897. Detholwyd y tônau canlynol o'r Llyfr Tonau ac Emynau newydd—*Myfanwy*, *Wells*, *Tydfil*, *Maesgwyn*, *Aberystwyth*, *Gellionen*, *Gwynfe*, *Gogerddan*, *St. Dewi*, *Nantgau*, *St. Aelred*, *Resolven*, *Lydia*, yn nghyd â *Chant* a dwy don i'r plant o'r un llyfr. Gadawyd detholiad y corawd neu'r anthem i'r arweinydd. Cafodd Mr. Eiddil Jones, Cefn, ei ethol yn arweinydd yn unfrydol. Cyn terfynu, siaradwyd am yr angen sydd i ddysgu elfenau cerddoriaeth i blant ac ieuenctyd ein cynnulleidfaoedd Gosodwyd ar y Blaenoriaid Canu i gymhell y mater yn y gwahanol gapeli, ac i drefnu dosparthiadau ar gyfer arholiadau y *Tonic Sol-fa College*. Penderfynwyd hefyd i gyflwyno y Tystysgrifau *(Certificates)* i'r rhai llwyddiannus ryw amser yn ystod y Gymmanfa.

Marwgofion.

Medi 19, yn 19 mlwydd oed, Rhys Evans, ail fab Evan ac Elizabeth Evans, Gwaralltyfardre. Claddwyd yn mynwent Capel-y-Fadfa, a gwasanaethwyd ar yr achlysur i glywedigaeth tyrfa luosog iawn, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. T. Arthur Thomas, Pantydefaid. Nerth a gaffo'r perthynasau i alaru'n gymmedrol ar ol un oedd mor gu ac anwyl iddynt.

Medi 30, yn ddau fis oed, David John, baban Jenkin a Margaret Morgan, Graigtrebanos. Claddwyd yn mynwent Gellionen, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan T. J. Jenkins.

Hydref 2, yn 41 oed, ar ol cystudd byr o ychydig oriau bu farw Mrs. Davies, priod Mr. D. Davies, Plasyberllan, ger Felindre, gan adael priod a chwech o blant bychain yn nghyd a thad a mam, brodyr a chwiorydd, i alaru ar ei hol. Yr oedd yn berffaith iach yn ystod y dydd, ac aeth felly i'w gwely fel arferol, ond oddeutu deg o'r gloch y noson hono, cafodd ei tharaw yn ddisymwth gan ergyd o'r parlys mud, ac er holl gynnorthwy a allasai medrusrwydd meddyg a chymmydogion roddi iddi methasant gael ganddi yr un gair; ac oddeutu pedwar o'r gloch boreu trannoeth ehedodd ei hyspryd ymaith at yr Hwn a'i rhoes. Menyw serchus a charedig oedd Mrs. Davies, a gair da iddi gan ei chymmydogion a'i holl gydnabod, a chan y Gwirionedd ei Hun. Yr oedd yn Undodwraig selog, ac yn aelod yn Llwynrhydowen er yn ieuanc iawn. Hyd ei marwolaeth cyrchai bob amser i Gapel Penrhiw, pan y cynnelid gwasanaeth yno. Hefyd, dymunem ychwanegu ei bod yn ferch i Mr. a Mrs. Thomas Evans, Porthyrhyd,—y ddau yn hen aelodau yn y Llwyn. Y dydd Llun canlynol cludwyd yr hyn oedd farwol o honi gan dyrfa luosog iawn i'w bedd yn Mynwent Eglwys St. Barnabas, Felindre, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Williams, Ficer Llangeler. Heddwch i'w llwch, a bydded i Dad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon fod gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.—E.E.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.